30.07.2020

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880506

Erthygl i'r Wasg Press Release

Noson o hwyl dan y lloer gyda Mici Plwm

Efallai nad yw'r enw Michael Lloyd Jones yn debygol o feddwl llawer i nifer ohonom, ond bydd pawb yn siŵr o adnabod Mici Plwm. A dyma pwy fydd gwestai nesaf Elin Fflur yn y bennod nesa, â'r olaf, o **Sgwrs Dan y Lloer**.

Yn fwyaf adnabyddus fel un hanner o'r ddeuawd ddigri, Syr Wynff a Plwmsan, mae Mici wedi diddanu miloedd o blant Cymru dros y blynyddoedd.

"Da ni'n cal lot o sbort a chwerthin, Wynff a fi. 'Da ni dal yn trafod, a dwi'n medru darllen ei feddwl o, a fo'n gallu darllen fy meddwl i. Y cyngor fyswn ni'n rhoi i rhywun sydd isio amseru comedi ydi cyd-weithio yn glos ac yn bendant bod yn gyfrifol am yr iaith, dim Cymraeg sathredig. Pam? Achos fod plant a bobl ifanc yn dynwared. Raslas, asgob, twmffat a wpadeis!"

"Dwi yn trysori'r cyfnod yna. O ni'n cerdded trwy sgwâr Caernarfon un tro, ac mi waeddodd rhyw lancyn ifanc ar draws y maes arna i, 'Hei Plwmsan, oedd gen Nain *grysh* arna chdi pan 'oedd hi'n ysgol ers talwm'."

Tro hyn, nid anturiaethau Plwmsan fydd dan sylw, ond rhai personol Mici Plwm. O goginio cyri werth ei ganmol ym Mhakistan, i hwylio yr holl ffordd i Boston, mae'n amlwg yn hoff iawn o deithio. Ond, bu cyfnod byr ble na allai fynd i unman.

"Pan oedd yr ymladd am y sianel - o ni yna hefyd, yn dringo mastiau - a cael fy ngharcharu am y peth. Cyn hynny, o ni'n gweithio'n Saesneg yn troelli recordiau a hyrwyddo digwyddiadau, yna, sylwi mae o'n bosib ei neud o drwy'r iaith Gymraeg.

"Felly mi aeth DJ Plummy i ffwrdd ac mi ddoth o'n Mici Plwm a dechrau rhywbeth newydd sbon, sef disgo teithiol Mici Plwm. Teithio neuaddau pentref - newid y neuadd yn rhyw fath o glwb nos hefo goleuadau a pob dim. Pawb yn dod mewn a dawnsio tair awr heb stopio. 'Roedd o'n ddiddorol tu hwnt ac o ni'n mwynhau."

Ond beth sydd wedi ysgogi Mici i gyflawni cymaint?

"Y rheswm, heb os nac o ni bai am yr ysfa i lwyddo, yw y ffaith i mi gael fy magu mewn cartref plant rhwng pump a un-ar-bymtheg mlwydd oed.

"O ni'n byw ym mhentref Llan Ffestiniog, yr ail o bedwar o blant. Fe gymerwyd Mam yn sâl a bu'n rhaid iddi fynd i'r ysbyty. Chwarelwr oedd yn Nhad - y broblem fawr oedd, sut oedd o mynd i edrych ar ôl pedwar o blant, a'r ieuengaf mond yn fabi mewn breichiau? Felly bu'n rhaid i ni fynd i gartref Bryn Llywelyn."

Mae nhw'n dweud fod bron pob digrifwr yn cuddio tu ôl i haenen o dristwch, ac mae'r profiad wedi cael effaith dwys ar Mici.

"I mi, colli breichiau mam o nghwmpas i, fel plentyn. Y cwtshys, y swsus. O ni'n cael gofal, ond 'doedd o ddim 'run peth. Roedd na 45 o blant ac o ni'n cael fy adnabod fel Meical rhif 14, a'r rhif 14 yn cael ei wnïo mewn i'r sanau, y festiau, y tronsiau ac ati. Oedd na rhyw oerni. Dwi 'di colli y cofleidio, y gofal yna."

Er gwaetha'r cyfan, mae magwriaeth Mici Plwm yng nghysgod y llechi yn dal i fynnu lle arbennig yn ei galon.

"Stiniogyn ydwi. Hogyn y garreg las. Dwi'n treulio lot o amser yn 'Stiniog gyda Côr y Brythoniaid a dwi'n lywydd i Glwb Pêl Droed Amaturiaid Blaenau Ffestiniog. Ond dwi yn Pwllheli ers 20 mlynedd a mwy, ac ma gen i waith a dyletswyddau pleserus tu hwnt i'w cyflawni yma. Mi fyddai, yn ystod y flwyddyn yma, yn Faer tref Pwllheli ac ma hynny'n anrhydedd enfawr."

Yn ogystal â creu argraff yn ei gynefin, bydd cyfraniad Mici at ddiwylliant Cymraeg yn parhau i ddylanwadu ein bywydau i gyd. I ddarganfod mwy am fywyd lliwgar Mici Plwm, gwyliwch **Sgwrs Dan y Lloer** ar S4C nos Lun am 8.00.

Sgwrs Dan y Lloer: Mici Plwm
Nos Lun 10 Awst, 8.00
Isdeitlau Saesneg
Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill
Cynhyrchiad Tinopolis ar gyfer S4C

30.07.2020

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880506

Erthygl i'r Wasg **Press Release**

An evening of fun under the stars with Mici Plwm

The name Michael Lloyd Jones may not mean much to many, while the moniker Mici Plwm is widely known throughout Wales. And this is who Elin Fflur will visit for a moonlit chat in the next and final episode of **Sgwrs Dan y Lloer**.

Best known as one half of the humorous duo, Sir Wynff a Plwmsan, Mici has entertained thousands of Welsh children over the years.

"We have a lot of fun and laughter, Wynff and I. I can read his mind, and he can read my mind. The advice I would give to someone with an interest in comedy timing is to work with each other very closely and be responsible with language, use the correct Welsh. Why? Because children and young people will watch and imitate. Wpadeis!"

"I treasure that time. I was walking through the square in Caernarfon once and some young lad shouted across to me, 'Hey Plwmsan, my Nain had a crush on you when she was in school a long time ago'.

This time, it will be the adventures of Mici Plwm getting airtime, rather than Plwmsan. From cooking curries in Pakistan, to sailing all the way to Boston, he clearly loves travelling. But, there was a short period in his life where he couldn't go anywhere.

"During the fight for a Welsh language channel – I was there too, climbing masts. I was imprisoned for it. Before that, I worked through the medium of English playing records and promoting events, then I realised – this can be done in Welsh.

"So, DJ Plummy went away and along came Mici Plwm to start something brand new, the Mici Plwm mobile disco. Travelling village halls with lights and everything – transforming the hall into some sort of nightclub. Everyone came and danced three hours non-stop. It was really interesting, and I loved it."

But what motivated Mici to achieve so much?

"The reason for my success, without a doubt, was the fact that I grew up in a children's home between five and 16 years old.

"I was the second of four children and we lived in the village of Llan Ffestiniog when Mum was taken ill and had to go to hospital. Dad was a quarryman - the big problem was, how was he going to look after four children, with the youngest just a babe in arms? And that's why we had to go to Bryn Llywelyn children's home."

They say that almost every comedian hides behind a layer of sadness. This certainly rings true for Mici.

“As a child, losing my mother's arms around me and the cwtches, the kisses, was profound. Yes, we were cared for, but it wasn't the same. There were 45 children and I was known as Meical, number 14. Just ‘14’ was sewn into my socks, vests, underpants and so on. It was so cold. I missed the hugs, that kind of care.”

Despite it all, Mici Plwm's upbringing in the shadow of the slate tips still holds a special place in his heart.

"I'm ‘Stiniog born and bred. A lad from the land of the blue slate. I spend a lot of time there still with Côr y Brythoniaid and I'm president of Blaenau Ffestiniog Amateur Football Club. But I've been in Pwllheli for 20 years and more now, and I have a very rewarding job here, and duties to be fulfilled. Later this year, I will be the Mayor of Pwllheli and it’s such a great honour.”

As well as making an impression in his homeland, Mici's contribution to Welsh culture will continue to influence all our lives. To find out more about Mici Plwm's colourful life, watch S4C's **Sgwrs Dan y Lloer** on Monday at 8.00.

Sgwrs Dan y Lloer: Mici Plwm
Monday 10 August, 8.00
English subtitles available
On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms
A Tinopolis production for S4C